## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (TALERDDIG I GOMINS-COCH, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, rhwng Talerddig a Chomins-coch, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd cerbydau sy'n 14' 6" neu dros hynny yn cael eu gwahardd rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2. Disgrifir y llwybr arall yn Atodlen 3.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 12 Mehefin 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) o 12 Mehefin hyd 26 Mehefin 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### ATODLEN 1

Y darn o'r gefnffordd yn Nhalerddig, Powys sy'n ymestyn o bwynt sydd oddeutu 100 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt pont reilffordd Pont Bell hyd at ei chyffordd ag ystad Bwlch yr Iaen yn Nolfach, Powys.

## THE A470 TRUNK ROAD (TALERDDIG TO COMMINS COCH, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road between Talerddig and Commins Coch, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. Vehicles of or over 14' 6" will be prohibited from proceeding on the lengths of the trunk road specified in Schedules 1 and 2. The alternative route is described in Schedule 3.

The Order comes into force on 12 June 2025. The temporary prohibition is expected to operate intermittently, overnight (19:00 – 06:00 hours) from 12 – 26 June 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE 1

The length of the trunk road at Talerddig, Powys that extends from a point approximately 100 metres east of the centre-point of Pont Bell railway bridge to its junction with Bwlch yr Iaen estate at Dolfach, Powys.

Y darn o'r gefnffordd yn Llanbrynmair, Powys sy'n ymestyn o'i chyffordd â chanolbwynt y ffordd sirol y tu allan i'r eiddo o'r enw Llysun hyd at yr eiddo o'r enw Newgate (i'r gorllewin o bont Tripgate).

Y darn o'r gefnffordd yng Nghomins-coch, Powys sy'n ymestyn o bwynt 476 o fetrau i'r dwyrain o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol hyd at ganolbwynt y gilfan a leolir oddeutu 1.35 cilometr i'r gorllewin o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol hwnnw.

**ATODLEN 2**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ystad Bwlch yr Iaen, Dolfach hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r eiddo o'r enw Newgate (i'r gorllewin o bont Tripgate), Llanbrynmair hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y gilfan a leolir oddeutu 1.35 cilometr i'r gorllewin o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya parhaol yng Nghomins-coch hyd at bont reilffordd Pontdolgoch.

**ATODLEN 3**

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin fydd mynd ar yr A470 tua'r de-ddwyrain i Gaersŵs, yr A489 tua'r dwyrain i'r Drenewydd, yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain, Ffordd Osgoi'r Drenewydd hyd at Gylchfan Gorsaf y Trallwng, Smithfield Road tua'r gorllewin, Mill Lane a'r B4381 i Gylchfan Raven, yr A458 tua'r gorllewin i Fallwyd a'r A470 tua'r de i Lantwymyn: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de-ddwyrain.

The length of the trunk road at Llanbrynmair, Powys that extends from its junction with the centre-point of the county road outside the property called Llysun to the property called Newgate (west of Tripgate bridge).

The length of the trunk road at Commins Coch, Powys that extends from a point 476 metres east of the permanent 20 mph speed limit sign to the centre-point of the lay-by located approximately 1.35 kilometres west of that permanent 20 mph speed limit sign.

**SCHEDULE 2**

The length of the trunk road that extends from its junction with Bwlch yr Iaen estate, Dolfach to Pontdolgoch railway bridge.

The length of the trunk road that extends from the property called Newgate (west of Tripgate bridge), Llanbrynmair to Pontdolgoch railway bridge.

The length of the trunk road that extends from the centre-point of the lay-by located approximately 1.35 kilometres west of the permanent 20 mph speed limit sign at Commins Coch to Pontdolgoch railway bridge.

**SCHEDULE 3**

The alternative route for north-westbound vehicles will be via the south-eastbound A470 to Caersŵs, eastbound A489 to Newtown, north-eastbound A483 Newtown Bypass to Welshpool Station Roundabout, westbound Smithfield Road, Mill Lane and B4381 to Raven Roundabout, westbound A458 to Mallwyd and southbound A470 to Cemmaes Road: vice versa for south-eastbound vehicles.